



**ADRODDIAD GAN Y  
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE  
REPORT**

## **The Avian Influenza (H5N1 in Wild Birds) (Wales) Order 2006**

Mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol i Gymru ac yn gweithredu Penderfyniad y Comisiwn 2006/563/EC sy'n trafod mesurau gwarchod o ran fflw adar pathogenig iawn mewn adar gwyllt yn y Gymuned ac yn diddymu Penderfyniad 2006/115/EC. Gwnaed y Gorchymyn gan ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar 12 Rhagfyr, a daeth i rym ar y diwrnod canlynol.

### **Rheol Sefydlog 11.7**

Nodwyd y pwyntiau canlynol o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae adran 87(4) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 yn cynnwys diffiniad cyfyngedig o ddofednod. Estynnwyd y diffiniad hwn gan erthygl 2(1) o Orchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 i gynnwys pob math o adar. Mae Erthygl 2 o'r Gorchymyn presennol yn awgrymu ei fod yn cyfyngu ar y diffiniad hwnnw, ond ni enwyd unrhyw bwr a fyddai'n galluogi i hynny gael ei wneud. Mae'r pwr priodol wedi'i gynnwys yn adran 87(5), a dylai fod wedi'i enwi. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 2 yn diffinio'r term "Regulation (EC) No. 1774/2002", ond mae'r dyddiad "3 October 2002" ar goll ar ôl "Council of". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 3 yn pennu'r gofynion ar gyfer cyhoeddiadau a hysbysiadau, ond ni enwyd unrhyw bwr a fyddai'n galluogi i hynny gael ei wneud. Mae'r pwr priodol wedi'i gynnwys yn adran 83(2), a ddylai fod wedi'i enwi. Gwnaed hynny yn y Gorchymyn cyfatebol sy'n ymwneud â dofednod.

[Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 24 yn cyfeirio at droseddau "under this Order". Fel yr esboniwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar y gorchymyn, The Foot-and-Mouth (Wales) Order 2006, nid oes troseddau "under this Order" yn bodoli. Esbonnir y sefyllfa ym mharagraff olaf ond un Nodyn Esboniadol i'r Gorchymyn presennol - byddai torri'r Gorchymyn hwn yn drosedd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981. Gallai hyn olygu dadl gyfreithiol mewn unrhyw erlyniad sy'n dibynnu ar erthygl 24. Nid yw'r geiriau "under this Order" yn ymddangos yn narpariaeth gyfatebol y gorchymyn, The H5N1 in Poultry Order. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Paragraff 10(2) o'r Atodlen yn berthnasol i "The other mark referred to in paragraph 12(1)". Ni chyfeirir at unrhyw farc yn y paragraff hwnnw. Dylai'r croesgyfeiriad fod wedi bod at baragraff 9(2) (c)(i). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw'r rhain a fyddai wedi bod yn addas i'w cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Dim ond drwy ddeddfwriaeth bellach y gellir eu cywiro nawr.

Gwnaed y Gorchymyn hwn yn Saesneg yn unig. Penderfynodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn unol â Rheol Sefydlog 24.3 na fyddai'n ymarferol bosibl gwneud y Gorchymyn yn ddwyieithog pe byddai'n cael ei ddwyn i rym yng nghanol mis Rhagfyr ynghyd â'r ddeddfwriaeth gyfatebol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

## **Sylwadau**

Mae Erthygl 9(7) yn diffinio "day-old chicks", am ryw reswm, fel unrhyw ddofednod llai na 72 awr oed; hynny yw, llai na thridiau oed. Fodd bynnag, adlewyrchiad o'r diffiniad yn Erthygl 2 o Benderfyniad y Comisiwn yw hwn ac felly mae wedi'i ddrafftio'n gywir.

Mae gan y testun a roddwyd i'r Pwyllgor ddwy erthygl rhif 15(3); mae'n amlwg mai (4) ddylai'r ail fod. Byddai wedi bod yn bosibl cywiro hwn wrth argraffu, ynghyd â chael gwared ar y cromfachau dianghenraid o amgylch rhifau paragraff Atodlen 2 yn llinell gyntaf erthygl 8(7).

## **David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**16 Ionawr 2007**